Ymchwil DEWI WILLIAMS

# Gwaith Siôn Ebrill ar weld golau dydd

GAN FOD erthygl Dr Meredydd Evans yn y rhifyn olaf yn ysgogi ymateb dyma ychydig sylwadau fydd o ddiddordeb iddo ac eraill gobeithiaf. Ymddiheuraf i ddarllenwyr y "Ffynnon", papur bro Eifionydd am ail adordd hanes Griffith Roberts a ddarllenasant eisoes yn rhifyn Rhagfyr.

Mae'n sicr fod y William Ryder a gyfrannodd yr erthygl i'r Cymru Cyf XVII ar Sion Ebrill yn hannu o Ardudwy ond treuliodd ran o'i oes ym Mhorthmadog a'r cylch. Yn ôl a ddeallaf bu'n glerc i'r pensaer a'r peiriannydd Thomas Roberts y ceir coffâd iddo yng nghyfrol XIX o'r Cymru gan awdur anhysbys (ai Ryder tybed?). Roedd Thomas Roberts hefyd yn enedigol o Ardudwy.

Yn ei golofn yn y *'Daily Post'* ar gychwyn y chwedegau noda Arthur Williams iddo dderbyn gwybodaeth am Ryder gan yr hanesydd lleol F Lloyd Griffith o Dremadog. Erbyn blynyddoedd cynta'r ganrif hon trigai yn Nhremadog gyda'i ferch Matilda.

Ei gyflogwr erbyn hynny oedd John Williams, masnachwr glo, blawd a gwlan. Saesneg oedd iaith ei ferch a fynychai ysgol y pentref gyda F Lloyd Griffith. Mae cofnod yn llyfr cyfrifon eglwys Tremadog iddo farw yn 1915 ond methais a darganfod man ei fedd a'i oedran.

Cofnododd William Ryder holl waith Sion Ebrill a'i nodlyfr arbennig. Un hirsgwar ydyw wedi ei rwymo mewn lledr o goch tywyll ac y mae ymmeddiant Mrs Myfanwy Morris o Borthmadog. Mae pob tudalen wedi ei rhannu ar ei hyd gan ddwy linell goch gyfochrog. Cofnodid mesuriadau llwybr yr arolwg rhwng y llinellau yma a mesuriadau y canghennau o bobtu iddynt. Llyfr maes tir-fesurydd ydyw.

Yn ogystal â chyfansoddiadau Sion Ebrill, carolau plygain meithion ran fwyaf, cynnwys y llyfr ddetholiad o feddargraffiadau o fynwentydd y fro. Cyhoeddwyd y mwyafrif ohonynt yn y gyfrol "Dagrau Gwerin" gan y dwieddar Emrys Jones, Cricieth.

Ei fwriad ydoedd cyhoeddi gwaith Sion Ebrill a gwn fod y llawysgrif wedi ei chyflwyno i Wasg Gwynedd ganddo cyn ei farw, ac y caiff ei chyhoeddi cyn bo hir. Darganfu y bu Sion Ebrill fyw rhwng 1745-1838 ac y dywed traddodiad mai plethu cewyll a gweu sanau oedd ei waith. Crwydrai'r ffeiriau gan gludo ei gynnyrch ar fulod.

* * *

YN LLAWYSGRIF Peniarth 201 tynnwyd darlun pur amaturaidd gan Dr Griffith Roberts o'i gartref, Isallt Fawr, Cwm Pennant. Dibynnu ar ei gof a wnai tra yn Nolgellau, gan nad ydyw'r cefndir yn cydymffurfio â'r hyn ydoedd yn 1784, ac ni fu newid sylfaenol yn y tirwedd ers hynny.

Bu'r llawysgrif yn amlwg yn ei feddiant fel ag y bu sawl un arall gan gynnwys er enwog Bangor 6 sydd yn cynnwys barddoniaeth Dafydd ap Gwilym. Bu raid i Owain Myfyr fygwth cyfraith ar y Doctor cyn iddo dderbyn y llawysgrif hwnnw yn ôl ganddo.

Ysgrifennodd y diweddar Glyn Penrhyn Jones fywgraffiad difyr o'r Dr Griffith Roberts ac fe'i ceir yn y casgliad o'i ysgrifau "Newyn a Haint yng Nghymru" (Llyfrfa'r MC 1962). Ei awgrym ydyw fod Griffith Roberts wedi ymsefydlu yn Nolgellau cyn 1772.

Dyfynna'r awdur o'r bamffled *"The Old Order"* Ben Bowen Thomas (1948) sydd wedi ei seilio ar ddyddiadur Elizabeth Baker yn y Llyfrgell Genedlaethol. Cydoesai'r waraig hon â Griffith Roberts yn nhref Dolgellau a rhydd ddisgrifiad byw o'r meddyg yn ymarfer ei grefft yn ôl trefn y ddeunawfed ganrif – gwaedu a phothellu ran amlaf.

Un o'r hanesion lliwgar amdano yw'r ffrae fu rhyngddo â'r ficer oherwydd maint ei fil i ryw glaf anffodus. Yn ôl Elizabeth Baker *"both Divine and physician were profuse in foul language"*.

'Roedd meddygon Isallt Fawr yn bur adnabyddus yn eu dydd ac ymfalchiai Alltud Eifion ei fod yn ddisgynydd iddynt. Yn 1884 cyhoeddodd lyfryn preifat tan yr enw "Hanes ac Achyddiaeth Teulu Isallt". Edrydd fod deg ar hugain yn tarddu o'r "cyff genedl" gan gynnwys tri o'i feibion ei hun. Enwogodd nifer o'r teulu eu hunain fel meddygon chwarel yn Llanberis a Ffestiniog. Ceir adroddiadau difyr am eu gorchestion mewn cyfres o erthyglau yn "Y Rhedegydd" 1936.

Erbyn hyn profodd yr Athro Ceiri Griffith inni yn ei ddarlith "Achau yn Eifionydd" (Llyfrgell Arfon/Dwyfor) fodolaeth llinell arall yn tarddu o Robert ap Dafydd Isallt a fu farw yn 1738. Perthyn teulu Penbryn Cricieth i'r llinell yma a hysbys i ni i gyd yw amlygiad hen ddawn gynhenid teulu Isallt Fawr yn y llawfeddyg Owen Elias Owen a'i deulu.

Hoffwn ddiolch i'r arch-chwilotwr Dafydd Guto am y cyfeiriad at William Ryder yn y *Daily Post*, ac i John Alun Jones, Chwilog am fy ngoleuo ynglŷn â dirgelion tir-fesuriaeth.


# ANGLESEY BOOKS (JACK BAINES)

**1 Stryd Thomas, Caergybi, Ynys Môn, Gwynedd LL65 1RR**

**Ffôn: (0407) 50988**

Dewch i chwilota yn ein siop ar ei newydd wedd.

Yr un yw'r cyfeiriad, ond y mae yna fwy fyth o lyfrau yma.

Yn dal i arbenigo mewn llyfrau ar fynydda a fforio.



Llyfrgell Genedlaethol Cymru

DEFNYDDIAU A GWASANAETHAU CADWRAETH

Cynhadledd i'w chynnal yn

GREGYNOG

*(Y Drenewydd, Powys)*

Gorffennaf 15-17, 1987

YMAELODI

£60 yw'r gost am y drydedd gynhadledd ar gadwraeth i'w chynnal yng Ngregynog o dan nawdd Llyfrgell Genedlaethol Cymru sy'n cynnwys dwy noson yng Ngregynog, prydau bwyd, darlithoedd a T.A.W. Gall cynrychiolwyr fynychu rhan o'r gynhadledd a thalu'r gost yn unol â hynny. Dylid dychwelyd ffurflenni cofrestru erbyn Gorffennaf 1, 1987 at Drefnydd y Gynhadledd. Gyrrir infois gyda chadarnhad cadw lle, taflen ar Gregynog a thaflen *Conference Discount Fare*. Codir £5 am dynnu'n ôl.

*Trefnydd y Gynhadledd:* Miss Eiluned Rees, Ceidwad Cynorthwyol (Cadwraeth), Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth, Dyfed, SY23 3BU.